**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 21 Rhagfyr 2021 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| D W Helliwell | M Jones | L V Walton |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Marlyn Dickson | Strategic Change Programme Manager |
| Sally-Ann Evans | cyfreithiwr arweiniol |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J A Hale a/ac P B Smith

---

## 19 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 20 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Adfer a Chenedlaethau'r Dyfodol a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2021 fel cofnod cywir.

## 21 Cyflawni'n Well Gyda'n Gilydd - Cynllun Adfer.

Cyflwynodd Adam Hill a Marlyn Dickson adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn rhoi'r diweddaraf i aelodau ar y cynllun adfer a thrawsnewid. Abertawe – Cyflawni Pethau'n Well Gyda'n Gilydd

Amlinellwyd y cefndir a'r sail resymegol y tu ôl i ddatblygiad y cynllun, yn ogystal â'r prif ddibenion a nodau strategol y fenter sy'n cynnwys y tri phrif gam y tu mewn iddi, sef ailddechrau, ailffocysu ac ail-lunio gwasanaethau'r awdurdodau lleol wrth symud ymlaen.

Amlinellwyd pynciau amrywiol y ffrwd waith a nodwyd, y gwaith a wneir a’r mewnbwn a roddir gan y gwahanol dimau datblygu polisi yn y meysydd hyn yn yr adroddiad.

Amlinellwyd y prosiectau a’r llwyddiannau amrywiol eraill o fewn y cynllun hefyd, gan gynnwys ailddatblygiad sylweddol ac ehangiad canol y ddinas a'r arena newydd, effaith y strategaeth digartrefedd o ran symud dros 400 o bobl o lety dros dro, ehangu swyddi Cydlynwyr Ardal Leol i bob rhan o'r ddinas ac ymagwedd y bartneriaeth at ddarparu ffonau symudol a data i'r rheini y mae eu hangen arnynt i helpu gyda chynhwysiad digidol. Amlinellwyd hefyd y mentrau mewnol arbennig a syniadau sy'n cynnwys staff megis canolfannau arweinyddiaeth a syniadau, y ddarpariaeth ystwyth ddiweddaraf a chefnogaeth i staff yn ystod y pandemig.

Byddai gwaith ar gam 3 y cynllun, sef yr agwedd ail-lunio, a’r cynllunio ar ei gyfer yn parhau, ond ni fyddai'n cael ei gyflwyno a'i roi ar waith yn llawn tan ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 a sefydlu'r weinyddiaeth wleidyddol newydd a sefydlu'r strwythur uwch-reoli newydd a'i roi ar waith.

Gofynnodd aelodau gwestiynau amrywiol a gwnaed sylwadau ar yr adroddiad a'i gynnwys, ac roedd cyflwyniad y swyddogion yn cynnwys cyfeiriad at y meysydd canlynol - staffio, brexit, effaith barhaus y pandemig, materion ariannu amnewidiol yn y dyfodol a digartrefedd, ac ymatebodd yn unol â hynny.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am yr adroddiad a'u cefnogaeth i'r pwyllgor.

## 22 Adfer ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Cyflwynodd Richard Rowlands adroddiad "er gwybodaeth" a oedd yn amlinellu ac yn nodi'r paratoadau manwl a wnaed gan y cyngor ar gyfer gadael yr UE, y prif risgiau a nodwyd ar y pryd a hefyd rhoddwyd y diweddaraf i'r pwyllgor ar y sefyllfa bresennol ar ôl gadael yr UE.

Amlinellodd yr effaith mae brexit a'r pandemig parhaus wedi’i chael yn lleol, yn genedlaethol ac ar draws y byd ar faterion megis y gadwyn gyflenwi a phrisoedd yn cynyddu, argaeledd y gweithlu a chostau tanwydd cynyddol etc.

Manylodd ar y gwaith partneriaeth gwych a wnaed ar draws nifer o asiantaethau ar gynllun ailsefydlu dinasyddion yr UE ac amlinellwyd a manylwyd ar nifer y bobl sydd wedi derbyn cymorth yn yr adroddiad.

Gofynnodd aelodau gwestiynau amrywiol eto a gwnaed sylwadau ar yr adroddiad a'i gynnwys, gan gynnwys y meysydd canlynol - niferoedd dinasyddion yr UE nad ydynt wedi'u nodi eto, materion ariannu amnewidiol a symiau ariannu yn y dyfodol, prosiect pobl anabl, ac ymatebodd y swyddogion yn unol â hynny. Byddai'r wybodaeth fanwl nad oedd swyddogion yn gallu’i darparu yn cael ei chasglu a'i darparu i'r aelodau’n dilyn y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd eto i'r swyddogion am yr adroddiad a'u cefnogaeth i'r pwyllgor.

## 23 Adborth o'r Gweithdy - Y Gweithlu.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar y trafodaethau gwych, sesiynau holi ac ateb ac adborth a wnaed yn y gweithdai a gynhaliwyd o ran Strategaeth y Gweithlu yr oedd yr aelodau a'r swyddogion yn bresennol ar eu cyfer.

Cynhelir trafodaeth/adborth pellach ar y pwnc yn ystod cyfarfod mis Ionawr, cyn i Adrian Chard ddrafftio adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno yn ystod cyfarfod mis Chwefror.

## 24 Cynllyn Gwaith 2021/22.

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith 2021/22 ac awgrymodd yr adolygiadau canlynol:

Ionawr
Trafodaeth/diweddariad llafar pellach o Weithdy Strategaeth y Gweithlu.
Bydd Gweithdy ar Gydgynhyrchu yn dilyn y cyfarfod.

Chwefror
Polisi Datblygu Cynaliadwy/Polisi Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol.
Adroddiad ar Strategaeth y Gweithlu.
Trafodaethau ar yr Adroddiad Blynyddol.

Mawrth
Adroddiad Blynyddol.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith diwygiedig fel y'i hamlinellir uchod ar gyfer 2021/22.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.03 pm

**Cadeirydd**